

Axium Process

Proffil y Cwmni

Mae Axium Process yn wneuthurwr arbenigol systemau haearn bwrw sy'n darparu offer prosesu, cydrannau, gosodiadau tiwb a gosodiadau pibell a adeiladwyd yn bwrpasol ac sy'n bodloni gofynion unigol eu cwsmeriaid. Mae Axium Process yn ymroi i gynnig y gwerth gorau oll am arian o safbwynt dylunio, ffabrigo, ansawdd a chysondeb cynnyrch, cyflenwi ac olrhiniadwyedd.

Mae peirianwyr Axium Process yn meddu ar dros 150 o flynyddoedd dynol o arbenigedd hidlo a haearn bwrw hylan, ac er eu bod yn gweithredu mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau, mae buddsoddi yn y technolegau, hyfforddiant, systemau a gweithdrefnau diweddaraf oll yn caniatáu iddynt fodloni'r safonau trylwyr a osodir gan gwmnïau fferyllol a biodechnoleg ar gyfer dylunio hylan, ansawdd gweithgynhyrchu, cynnieddi arwyneb, profi ac ardystio.



Cydweithio â BEACON

Mae BEACON yn fenter ymchwil sy'n werth £20 miliwn i adeiladau 'Cadwyni Cyflenwi Gwyrdd' integredig gyda ffocws ar ddatblygu llwybrau newydd i gynhyrchion swyddogaethol a chystadleuol o ran cost, sy'n defnyddio biomas yn hytrach nag olew. Bwriad BEACON yw deall busnesau ac ymgysylltu â nhw i feithrin a chyflwyno 'Atebion Technoleg Gwyrdd' er budd diwydiant ar draws ystod o sectorau. I hwyluso, hyn, mae gan BEACON rwydwaith o arbenigedd gwyddonol ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe a all gynnig atebion o'r fainc i arddangosiad.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y Ganolfan Bioburo yn Aberystwyth, aeth BEACON ati i gael cyfarpar arbenigol maint peilot, gan gynnwys systemau hidlo wltra/systemau hidlo gwrthdroi osmosis. Axium yw prif weithgynhyrchwr systemau hidlo amlgam ac mae ganddo brofiad sicr o fodloni gofynion sefydliadau fferyllol a biodechnoleg. Darparodd BEACON ddata i AP ar ffracsiynu a chrynodiad suddion glaswellt a gafwyd drwy ymchwil arbrofol, er mwyn i Axium gyfrifo gofynion system ar raddfa uwch ar gyfer senario bioburo. Rhoddodd Axium gyngor, modelu ac adborth arbenigol ar hyfywedd a chost system hidlo ar gyfer bioburo suddion glaswellt.

Yn unol â chanlyniadau'r astudiaeth, aeth BEACON ymlaen i brynu llinell prosesu porthiant gwlyb integredig, peiriant pasteureiddio a pheiriant peilot hidlo pilen a oedd yn defnyddio technolegau hidlo wltra a gwrthdroi osmosis ar gyfer prosesau a oedd yn cynnwys ffracsiynu, crynodi, gloywi ac arbed dŵr.

O ganlyniad i gydweithio â BEACON, mae Axium bellach yn un o'rartneriaid sy'n cymryd rhan ym mhrosiect ymchwil A4B Llywodraeth Cymru. Mae'r fenter hon yn cynnwys ysgolheigion, Prifysgolion Aberystwyth a Bangor, a phartneriaid diwydiannol gan gynnwys cwmni archfarchnad. Nod y prosiect yw dangos y posibilrwydd o gynhyrchu cig, deunydd pecynnu a chlundiant tanwydd o'r un porthiant biomas mewn ffordd gynaliadwy yn amgylcheddol. Bwriad prosiect "STARS" yw cynhyrchu ystod o gynhyrchion o ffynhonnell biomas sydd ar gael yn rhwydd yn y Deyrnas Unedig, fel rhygwellt.



I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith 'Axium Process' ewch i: www.axiumprocess.com